MANUEL, DAFYDD (1624? - 1726), bardd

Enw: Dafydd Manuel
Dyddiad geni: 1624?
Dyddiad marw: 1726
Priod: Margaret Manuel
Plentyn: Anne Manuel
Plentyn: Mary Manuel
Plentyn: David Manuel
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Griffith Milwyn Griffiths

Dywedir yn y tri chyfeiriad cyntaf (isod) iddo gael ei eni yn y flwyddyn 1624-5. Ychydig a wyddys am ei fywyd. Yr oedd yn frodor o blwyf Trefeglwys, Sir Drefaldwyn. Bu farw ei wraig, Margaret, yn 1699. Bu iddynt dri o blant: Mary, a ddaeth yn adnabyddus am ganu penillion, Anne, a David. Cyhoeddwyd peth o waith y bardd yn Thomas Jones, *Carolau a Dyriau Duwiol*, 1696, David Jones, *Blodeu-Gerdd Cymry*, 1759, *Powys Fadog*, ii, 259, a'r *Gwyliedydd*, 1836, 250. Am ei weithiau mewn llawysgrif, gweler *Cat. of Add. to B.M. MSS.* 1841-5, a J. H. Davies, *Cat. of MSS. in N.L.W.* Gweler hefyd NLW MS. 558, 566, 593, 653, 783, 832, 1244, 1580, 1710, 1797, 3487, 7191, 11991, Bodewryd MS. 73, a Swansea MS. 2 yn Ll.G.C. Bu farw Mai 1726, a chladdwyd yn Nhrefeglwys 16 Mai 1726.

Awdur

Griffith Milwyn Griffiths

Ffynonellau

Rowlands, *A biographical dictionary of Eminent Welshmen whou flourished from 1700 to 1900* (1907)

H. Blackwell, NLW MSS 9266A: A Dictionary of Welsh Biography

Y Geninen, Hydref 1884

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Notable Welshmen (1700–1900) (1908)

Y Brython, v, 209

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

Cofrestri Esgobaeth Bangor yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Ll.G.C.

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732866

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu